DATGANIAD I'R WASG

Menter Iaith Conwy
Y Sgwâr
Llanrwst
Conwy
LL26 0LG
☎ 01492 642357
meirion@menteriaithconwy.cymru247.net

(English version- next page)

PAR: Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Conwy

Hoffwn dynnu'ch sylw at waith Menter Iaith Conwy. Fel y gwyddoch mae'n debyg, mae'r rhwydwaith o Fentrau Iaith sydd gennym ar draws Cymru yn sefydliadau cymunedol unigryw sy'n hyrwyddo a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Menter Iaith Conwy yw'r fenter iaith yn y sir hon. Pan sefydlwyd hi ychydig dros 12 mlynedd yn ôl corff bychan efo 1 aelod o staff rhan amser a throsiant o £15,000 oedd hi. Bellach mae ganddi drosiant o oddeutu £400,000, 13 o staff llawn neu ran amser a dwsinau o weithwyr llawrydd.

Rydym yn darparu amrywiaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i'r sir gyfan gyda chymorth y pwyllgorau ardal sydd gennym. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o wersi syrffio i ddosbarthiadau athroniaeth.

Tu hwnt i hyn mae gennym ni brosiectau penodol sy'n dod â budd economaidd a chymdeithasol i'r sir megis Cyfieithu Cymunedol, yr Asiantaeth Awyr Agored a Chynllun yr Hen Orsaf (Llanrwst). Mae'r prosiectau hyn hefyd yn cryfhau'r Gymraeg.

Yn ddiweddar llwyddodd Menter Iaith Conwy i ddenu arian Cynllun Datblygu Gwledig (400mil dros ddwy flynedd) i ddatblygu tri chynllun roeddem yn eu gweithredu yng Nghonwy ar draws Siroedd y Gogledd. Y tri chynllun yw; Cyfieithu Cymunedol, Yr Asiantaeth Awyr Agored a Hyfforddiant Iaith yn Nant Gwrtheryn (gallwn dalu 75% o'r gost wythnos preswyl).

Cewch mwy o wybodaeth am ein holl gynlluniau drwy fynd i'n safle we www.mentrauiaith.com a chlicio ar Conwy (ar yr ochor dde).

.

Bydd ein cyfarfod blynyddol yn cael ei chynnal ym Maen Alaw, Penmaenmawr, Mehefin y 27ain, 6.30. Y gwr gwadd fydd y cyn A.C. Gareth Jones ei brofiadau yn y Cynulliad, a rol y Cynulliad i ddiogelu'r Gymraeg. Byddwn hefyd yn dangos fidio newydd Menter Iaith Conwy a fidio taith ienctyd 2011 i Batagonia. Buaswn yn ddiolchgar pe tai modd i chi ein hysbysu os ydych yn bwriadu dod. Bydd llyniaeth ysgafn ar gael.

Am fyw o wybodaeth cysylltwch efo Meirion neu Ffion (01492) 642357

PRESS RELEASE

Menter Iaith Conwy
Y Sgwâr
Llanrwst
Conwy
LL26 0LG
☎ 01492 642357
meirion@menteriaithconwy.cymru247.net

Reg: Menter Iaith Conwy AGM

As you know, the network of Mentrau Iaith across Wales is made up of unique community organisations that promote and develop the use of Welsh at grass root level.

Menter Iaith Conwy is the “Menter” in this county. When it was established over 12 years ago it was a small organisation with 1 part time member and an annual turnover of £15,000. By now it has an annual turnover of around £400,000, 13 members of full and part time staff and dozens of freelance workers.

We provide a great variety of activities through the medium of Welsh to the whole county with the help of our local action committees. These range from surfing lessons to philosophy classes.

Beyond this we have specific projects that bring economic and social benefits to the county. Cyfieithu Cymunedol.cyf (community translation), Outdoor Pursuits Agency and our plans for the Old Station in Llanrwst are all plans that create work and strengthen the language.

Recently Menter Iaith Conwy was successful in attracting money from the Rural Development Plan (400k over 2 years) to develop 3 successfully schemes we had developed in Conwy across the counties of the North. The 3 schemes are Cyfieithu Cymunedol (Community Translation), The Outdoor pursuit’s agency and Language training at the National Language centre at Nant Gwrtheryn (we can pay 75% on a weeks residential course)

You can get more information about all our activities by visiting our web site www.mentrauiaith.com and clicking on Conwy (right hand side).

Our annual general meeting is being held at **Maen Alaw, Penmaenmawr, June the 27ain, 6.30. The guest speaker is the former A.M. Gareth Jones discussing his experiences at the Assembly and its role in safeguarding the Language. We will also be showing our new promotional video and a video of our recent youth trip to Patagonia.**

For more information contact Meirion or Ffion on (01492) 642357.